**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

18 Tachwedd 2021

Annwyl Lesley,

Datganiad Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygiadau Amrywiol) 2021

Yn ein cyfarfod ar 15 Tachwedd 2021, fe wnaethom ni drafod y Datganiad Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C mewn perthynas â Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygiadau Amrywiol) 2021.

Fe wyddoch fod y Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i is-ddeddfwriaeth i gywiro diffygion sy'n ymwneud ag iechyd planhigion, hadau a thatws hadyd sydd wedi codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cywiro gwallau mewn amryw offerynnau statudol. Nodwn fod Gweinidogion Cymru wedi rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn mewn maes datganoledig am resymau "effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau".

Mae'r datganiad ysgrifenedig yn nodi bod y Rheoliadau:

> *"...yn rhoi swyddogaethau i Sefydliad Diogelu Planhigion Cenedlaethol Prydain Fawr a'r Deyrnas Unedig. Gall y swyddogaethau hyn fod yn swyddogaethau awdurdod neilltuedig at ddibenion paragraff 8(1) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac o'r herwydd maent yn cynrychioli cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol."*

Deallwn fod y Rheoliadau hyn yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd oherwydd, o dan Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, byddai angen cydsyniad Llywodraeth y DU cyn y

gallai'r Senedd ddeddfu i ddileu neu addasu swyddogaethau sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol y DU.

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ailadrodd yr egwyddor na ddylid gwneud unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar bwerau'r Senedd heb i'r Senedd ymwneud â hyn mewn unrhyw ffordd (er enghraifft, drwy Lywodraeth Cymru yn gofyn am gymeradwyaeth y Senedd cyn cydsynio i Lywodraeth y DU wneud is-ddeddfwriaeth). Mae'r egwyddor hon yn gymwys waeth pa mor fach y gallai'r effaith ar bwerau'r Senedd fod.

At hynny, pe bai Llywodraeth Cymru wedi cydsynio i wneud y Rheoliadau hyn ar sail dull gweithredu Prydain Fawr gyfan (h.y. fframwaith cyffredin), byddem yn ddiolchgar o gael gwybodaeth bellach ynghylch unrhyw fframwaith cyffredin o'r fath.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb erbyn 1 Rhagfyr 2021.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.